Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Options Kinsale

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2018**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Options Kinsale yn cynnig pecyn gofal ac addysg preswyl integredig i ddisgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anghenion cymhleth. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn addysgu 21 o ddisgyblion o Flwyddyn 6 i'r cyfnod ôl-16.

Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae statws plentyn sy'n derbyn gofal gan bron pob un o'r plant.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion presennol leoliadau preswyl.

Mae'r ysgol wrthi'n cynyddu ei darpariaeth ystafell ddosbarth. Mae wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am newid perthnasol i'w chofrestriad.

Mae pennaeth a dirprwy newydd wedi eu penodi ers yr ymweliad diwethaf.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn deall eu hanghenion. Mae diwylliant anogol yno, sy'n helpu disgyblion i fagu hyder a hunan-barch. Dros gyfnod, mae hyn yn eu cynorthwyo i ddatblygu'u cyfathrebu a gwella'u hymddygiad.

Mae'r tîm arwain newydd yn awyddus i wneud gwelliannau i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn datblygu'n dda ac yn ymgorffori cynllunio llwybrau cwricwlaidd unigol i bob disgybl.

Mae dadansoddi data ar ddigwyddiadau yn gryfder.

Mae prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd addysgu a dysgu yn datblygu ac yn dechrau cael ffocws addas ar gynnydd disgyblion.

### Meysydd i'w datblygu

Mae llawer o weithdrefnau a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r ysgol. Mae ar y rhain angen amser i wreiddio cyn gwneud rhagor o newidiadau.

Nid yw staff bob amser yn manteisio ar hyfforddiant priodol i ddatblygu eu technegau addysgu a'u cynorthwyo i ddatblygu cyfathrebu gan ddisgyblion.

Mae cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol yn drylwyr ond nid yw targedau'n ddigon penodol.  Mae hyn yn golygu nad yw hi'n hawdd i staff fonitro cynnydd disgyblion yn erbyn targedau a osodwyd.

Mae prosesau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi datblygu.  Fodd bynnag, nid oes cylch parhaus a chydlynol sefydledig o wella'r ysgol.  Nid yw cynllunio ar gyfer gwella bob amser yn amlygu'n gywir y meysydd y mae angen i'r ysgol eu blaenoriaethu.

## Argymhellion

A1 Blaenoriaethu meysydd i'w datblygu a monitro effaith cyn cyflwyno newid pellach

A2 Mireinio cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol i sicrhau bod targedau yn gyflawnadwy

A3 Gwneud yn siŵr bod staff yn cael hyfforddiant arbenigol priodol i ymestyn eu medrau a chefnogi eu haddysgu

## Cynnydd wrth fynd i’r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Penodi pennaeth parhaol**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae’r perchennog wedi penodi pennaeth a dirprwy parhaol. Mae’r arweinwyr hyn yn dechrau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i arfer a gweithdrefnau yn yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno fformat cyson ar gyfer cynllunio gwersi a’r cwricwlwm, cyfarfodydd wythnosol i’r staff drafod cynnydd disgyblion a gwaith yr ysgol, a theithiau dysgu i fonitro arfer yr athrawon.

Mae Options Group wedi cymryd nifer o gamau priodol i gefnogi’r tîm arwain newydd. Mae’r rhain yn cynnwys penodi’r pennaeth blaenorol yn gadeirydd bwrdd craffu’r ysgol i gynnig dull cyson a neilltuo partner profiadol ym maes gwella ysgolion i gefnogi a herio arweinwyr yr ysgol.

**Argymhelliad 2: Datblygu prosesau hunanarfarnu a chynllunio ymhellach i sicrhau gwelliant parhaus ar lefel strategol**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae’r ysgol yn cynnal amrywiaeth addas o weithgareddau, sy’n llywio’r prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer datblygu. Mae’r rhain yn cynnwys arsylwi gwersi, teithiau dysgu, arsylwi cymheiriaid, craffu ar waith a dadansoddi data. Mae grŵp sicrhau ansawdd, a sefydlwyd yn ddiweddar, yn cyfrannu’n ddefnyddiol at y prosesau hyn.

Mae adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu’r ysgol yn ddogfennau defnyddiol sy’n nodi cryfderau priodol a meysydd priodol i’w datblygu. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi camau pwysig y mae angen eu gwella fel blaenoriaethau. Oherwydd newidiadau cyson mewn arweinyddiaeth, nid yw’r ysgol wedi datblygu cylch trylwyr eto o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae staff yn yr ysgol yn dechrau cyfrannu at y broses hunanarfarnu. Er enghraifft, mae’r pennaeth wedi cynnal dadansoddiad o waith yr ysgol gyda’r staff cyfan i nodi beth mae’r ysgol yn ei wneud yn dda a beth mae angen ei wella.

Nid yw’r ysgol yn ceisio barn rhieni fel rhan o’i phrosesau gwella.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Options Kinsale |
| **Rhif yr ysgol** | 6646004 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 08/11/2017 |
| **Perchennog** | Graham Baker (Options Autism4 Ltd) |
| **Staff** | 1 pennaeth, 1 dirprwy bennaeth, 5 athro amser llawn, 1 athro rhan-amser (0.6), 2 diwtor amser llawn |
| **Nifer y disgyblion** | 21 |
| **Darpariaeth** | Dydd a phreswyl 52 wythnos |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Awtistiaeth ac anghenion cymhleth |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 05/03/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 07/09/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 07/03/2016 |